

Darllen ac ysgrifennu



Darllen ac ysgrifennu

Cas ysgrifbinnau

Cas ysgrifbinnau — cas lledr siâp silindr i ddal ysgrifbinnau. Roedd y casys hyn yn cael eu gwneud drwy bwytho'r lledr, yna'i fwydo mewn d r, a'i fowldio o amgylch ffurfydd pren. Ar ôl iddo sychu, roedd y cas yn cael ei orchuddio â chroen gafr neu groen llo tenau. Mae hyn yn gwneud cas sy'n eithaf diddos ac yn ddigon cryf i ddiogelu'r cynnwys.

Mae'r ysgrifbinnau wedi'u gwneud o gyrs, ac roedd llawer o ryseitiau inc ar gael i ysgrifenydd yr Oesoedd Canol — y symlaf oedd cymysgu gwynwy a huddygl.



Sut ydyn ni'n gwybod am gasys ysgrifbinnau?

Disgrifiadau a darluniau mewn llawysgrifau canoloesol, gan gynnwys y Bedford Hours, a darganfyddiadau o gasys ysgrifbinnau yn ystod cloddfeydd archaeolegol.

Darllen ac ysgrifennu

Tabledi cŵyr gyda phwyntilau

Tabledi cŵyr gyda phwyntilau — dwy 'dudalen' bren, wedi'u llenwi â chŵyr gwenyn, a'u clymu ynghyd gan ddefnyddio careiau lledr. Ym 1494 y mae'n hysbys i bapur gael ei wneud gyntaf ym Mhrydain; cyn y dyddiad hwnnw, roedd pobl yn defnyddio'r 'pad ysgrifennu' canoloesol hwn i wneud nodiadau byr. Roedd rhai tabledi cŵyr yn cynnwys 'tudalen' ddwyochrog ychwanegol. Roedd y pwyntil, wedi'i wneud o bres, yn cael ei ddefnyddio fel 'ysgrifbin' i'w ddefnyddio i grafu'r nodiadau.



Sut ydyn ni'n gwybod am dabledi cŵyr?

Mae darluniau mewn llawysgrifau canoloesol, ynghyd â llawer o enghreifftiau, wedi'u canfod yn ystod cloddfeydd archaeolegol, yn Efrog yn nodedig.

Darllen ac ysgrifennu Felwm a memrwn

Felwm llo — gwyn, ac yn llai tryleu na memrwn.

Mae dwy ochr y felwm yn addas i ysgrifennu arnynt. Mae felwm wedi'i wneud o groen llo, sy'n cael ei fwydo mewn calch i'w lanhau, tynnu'r blew, y baw a'r saim, yna'i ymestyn ar ffrâm bren. Mae'r croen yn cael ei gadw'n llaith ac yn dynn, a gellir ei dynhau fwy fyth tra bod y croen yn cael ei grafu'n denau ac yn llyfn. Os bydd angen, gellir cannu'r croen yn ystod y broses. Ar ôl cael y trwch angenrheidiol, gellir gadael i'r memrwn sychu a'i dorri i lawr yn olaf, yn barod i'w droi yn ddalennau llai i'w defnyddio gan y sgrifellwr.

Memrwn croen dafad — golau, tenau a thryleu, a dim ond ochr y croen y gellir ei ddefnyddio i ysgrifennu arno. Caiff memrynau croen dafad eu gwneud gan ddefnyddio'r un broses â felwm llo, ac maent ychydig bach yn deneuach yn aml, ac yn fwy seimllyd oherwydd cyfansoddiad brasterog y croen y cawsant eu gwneud ohono.

Sut ydyn ni'n gwybod am felwm a memrwn?

Mae llawer o lawysgrifau, llyfrau a dogfennau canoloesol wedi'u gwneud o felwm a memrwn wedi goroesi mewn llyfrgelloedd o amgylch y byd.



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Darllen ac ysgrifennu

Priciwr memrwn

Priciwr memrwn — roedd y teclyn hwn, wedi'i gerfio o asgwrn, â blaen metel, yn cael ei ddefnyddio i farcio llythrennau goliwiedig, darluniau ar femrwn a felwm cyn gwneud yr ysgrifennu a'r lliwio terfynol gan ddefnyddio inciau.



Sut ydyn ni'n gwybod am bricwyr memrwn?

Darluniau mewn llawysgrifau canoloesol, darganfyddiadau o bricwyr memrwn yn ystod cloddfeydd archaeolegol.